# Cyfarwyddyd ynglŷn â gweddalennau PA a'r Gymraeg

## Cynnwys


Cyfarwyddyd ynglŷn â gweddalennau PA a'r Gymraeg ..... 1

Cynnwys ..... 1

Rhagair ..... 2

Cymorth a Chefnogaeth ..... 3

Cyfieithu ..... 4

Darllen Proflenni ..... 4

Beth yw Safonau'r Iaith Gymraeg? ..... 5

Ymhle mae'r safonau'n gymwys? ..... 6

Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Myfyrwyr ..... 6

Gwybodaeth i Staff ..... 7

Gwybodaeth i'r Cyhoedd ..... 7

Sut ydw i'n cymhwyso'r Safonau? ..... 8

Enghreifftiau ..... 9

Enghraifft 1: Adrannau Academaidd ..... 9

Enghraifft 2: Gwasanaethau Proffesiynol ..... 11

Enghraifft 3: Gwybodaeth Gorfforaethol ..... 12

A oes eithriadau o gwbl? ..... 13

# Rhagair

**Pwysig: Mae'r ddogfen hon yn disodli pob cyfarwyddyd blaenorol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg ar wefan PA.**

Mae'r ddogfen yn rhoi cyfarwyddyd i olygyddion y wefan i sicrhau bod y gweddalennau y maent yn eu creu yn cydymffurfio â'n Safonau Iaith Gymraeg.

Dylai gweddalennau dwyieithog fod yn gydradd yn y naill iaith a'r llall. Ystyr hyn yw bod angen iddynt fod yr un peth o ran:

- Diwyg - dylid defnyddio'r un dull i gyflwyno'r cynnwys yn y ddwy iaith.
- Ansawdd - dylai ansawdd y cynnwys fod yn gydradd yn y ddwy iaith.
- Cywirdeb - dylai'r cynnwys fod yn gwbl gyfredol a chywir yn y ddwy iaith.

Mae hi'n hanfodol bod gwefan y Brifysgol yn ffynhonnell gywir a chyfredol o wybodaeth yn y ddwy iaith. Os dangosir gwybodaeth anghywir yn y naill iaith neu'r llall mae'n peri dryswch i ddefnyddwyr a gallai'r Brifysgol fod yn euog o dramgwyddo yn erbyn deddf diogelu defnyddwyr.

Cofiwch, wrth greu tudalen yn un iaith, rhaid hefyd creu tudalen yn yr iaith arall. Rhaid sicrhau bod y dudalen yn barod **yn Gymraeg a Saesneg** *cyn* cymeradwyo'r cynnwys a gwneud y dudalen yn fyw.

Cofiwch hefyd wrth ichi wneud **newidiadau** i'r testun yn un iaith, rhaid ichi hefyd wneud yr **un newidiadau** yn yr iaith arall **ar yr un pryd**.

# Cymorth a Chefnogaeth

Mae'r Uned Gyfieithu yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/) yno i gynorthwyo staff er mwyn iddynt allu darparu cynnwys i'r we yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r cyfieithwyr wrth law i roi cyngor a chefnogaeth, yn ogystal â chyfieithu cynnwys. Gall yr Uned Gyfieithu eich cynorthwyo i gyrraedd Safonau'r Gymraeg ac maent yn croesawu ymholiadau a chwestiynau. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, cysylltwch â ni trwy ffonio 2045 neu e-bostio cyfieithu@aber.ac.uk.

Cewch fanylion ynglŷn â'r staff cyfieithu ar ein gwefan: https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/staff-profiles/listing/group/translators/

Mae taflenni cymorth ar gael i'ch cynorthwyo chi a'ch adran i weithio'n ddwyieithog. Maent yn cynnwys geirfa, brawddegau a chanllawiau: https://jump.aber.ac.uk/?rlcpt

Os oes gennych destun sydd angen ei gyfieithu ar frys, rhowch wybod i'r tîm trwy e-bostio neu ffonio, yn ogystal â nodi hynny wrth gyflwyno’r testun. Gallwn wedyn sicrhau y caiff y gwaith ei gyflawni cyn gynted ag y bo modd.

## Cyfieithu

Anfonwch destun i'w gyfieithu atom trwy ddefnyddio ein system ar-lein, yn https://myadmin.aber.ac.uk. Wrth gyflwyno cais am gyfieithiad, rhowch gymaint o gyd-destun a manylion â phosibl. Er enghraifft, dywedwch wrthym at beth y defnyddir y testun ac erbyn pryd yr ydych angen ei gael.

Os oes gennych destun sydd angen ei gyfieithu ar frys, rhowch wybod i'r tîm trwy e-bostio neu ffonio, yn ogystal â nodi hynny wrth gyflwyno’r testun. Gallwn wedyn sicrhau y caiff y gwaith ei gyflawni cyn gynted ag y bo modd.

Os oes gennych ddarn mawr o destun i'w gyfieithu mae'n ddefnyddiol iawn cael rhybudd am hynny ymlaen llaw. Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa i wneud trefniadau er mwyn cynorthwyo i gael y gwaith ichi erbyn y dyddiad angenrheidiol.

Os ydych yn gofyn am gyfieithu newidiadau a wnaethoch i gynnwys sy'n bod eisoes, dangoswch yn glir ymhle y gwnaed y newidiadau yn y cynnwys Saesneg, er mwyn cynorthwyo'r cyfieithwyr i gwblhau'r gwaith cyn gynted ag y gellir.

## Darllen Proflenni

Gallwn hefyd ddarllen proflen cynnwys yr ydych wedi ei greu eich hun. Anfonwch y testun hwnnw atom hefyd trwy ddefnyddio ein system ar-lein, yn https://myadmin.aber.ac.uk/.

# Beth yw Safonau'r Iaith Gymraeg?

Mae deddfwriaeth Safonau'r Iaith Gymraeg i'w gweld ar wefan y llywodraeth:

http://bit.ly/2POeyUa

Y Safonau Iaith Gymraeg sy'n ymwneud â gweddalennau yw:

| Safon | Manylion |
|---|---|
| 55 | Rhaid sicrhau –<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. |
| 58 | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. |
| 59 | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. |

# Ymhle mae'r safonau'n gymwys?

## Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Myfyrwyr

Mae deddfwriaeth Safonau'r Iaith Gymraeg (http://bit.ly/2GNJUW3) yn dweud bod yn rhaid i ni gael polisïau yn eu lle ynglŷn â defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd canlynol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr. **Felly, rhaid i gynnwys y wefan yn y meysydd hyn gael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg**.

- Derbyn a dethol myfyrwyr
- Gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr a darpar-fyfyrwyr am y corff
- Lles myfyrwyr
- Cwynion
- Achosion disgyblu yng nghyswllt myfyrwyr
- Y Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Mewnrwyd y myfyrwyr, safleoedd rhith-ddysgu a safleoedd pyrth dysgu
- Seremonïau Graddio a Gwobrwyo
- Asesu neu arholi myfyrwyr
- Dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol
- Darlithoedd cyhoeddus
- Cyfleoedd Dysgu
- Cyrsiau
- Llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau
- Dyrannu tiwtor personol

## Gwybodaeth i Staff

Mae deddfwriaeth Safonau'r Iaith Gymraeg yn dweud bod yn rhaid i ni **ddarparu gwybodaeth ddwyieithog i staff** ar ein mewnrwyd neu ar weddalennau eraill a anelir at staff (Safon 128).

## Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Mae deddfwriaeth Safonau'r Iaith Gymraeg yn dweud bod yn rhaid i'r wybodaeth a gyhoeddwn ar ein gwefan i'r cyhoedd **fod yn ddwyieithog**.

Rhaid i'r mathau canlynol o wybodaeth yn arbennig fod yn ddwyieithog:

- Polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau
- Agendâu, cofnodion a phapurau yn ymwneud â chyfarfodydd Bwrdd neu Gyngor neu gyfarfodydd eraill, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd
- Pamffledi a thaflenni
- Datganiadau i'r Wasg
- Ffurflenni
- Hysbysiadau
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Cyfleoedd dysgu

# Sut ydw i'n cymhwyso'r Safonau?

Wrth weithio ar gynnwys i'r wefan mae angen edrych a yw'r testun yn dod o fewn i un o'r meysydd a nodwyd yn yr adran flaenorol. Os ydyw, bydd yn rhaid trefnu i gael cyfieithiad o destun newydd, neu ddiweddariad o'r fersiwn Gymraeg os ydych yn bwriadu diweddaru'r Saesneg.

Mae cyfarwyddyd pellach ynglŷn â chyfieithu i'w weld yn yr adran Cymorth a Chefnogaeth.

# Enghreifftiau

## Enghraifft 1: Adrannau Academaidd

Mae gan Adrannau Academaidd wefannau sydd yn gyffredinol yn dilyn patrwm pendant gan ddefnyddio'r prif rannau canlynol:

| Rhan | Manylion | Dwyieithog |
|---|---|---|
| Amdanom ni | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am yr adran. Mae hi wedi ei hanelu at amrywiol gynulleidfaoedd, gan gynnwys darpar fyfyrwyr, a dylid ei darparu'n ddwyieithog. | Oes |
| Astudio gyda Ni | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am y cyrsiau a gynigir yn yr adran. Mae hi wedi ei hanelu at ddarpar fyfyrwyr, a dylid ei darparu'n ddwyieithog. | Oes |
| Cyflogadwyedd | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am wneud graddedigion yn fwy cyflogadwy. Mae hi wedi ei hanelu at ddarpar fyfyrwyr, a dylid ei darparu'n ddwyieithog. (Gallai hynny gynnwys dolenni at wybodaeth ganolog am gyflogadwyedd) | Oes |
| Gwaith allanol | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau allanol y mae'r adran yn gysylltiedig â hwy, e.e. rhyngweithio ag ysgolion. Mae hi wedi ei hanelu at ddarpar fyfyrwyr, a dylid ei darparu'n ddwyieithog. (Gallai hynny gynnwys dolenni at wybodaeth ganolog am ddenu myfyrwyr) | Oes |
| Ymchwil | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am yr ymchwil sy'n cael ei chyflawni gan yr adran. Dylai'r brif ddalen ymchwil fod yn ddwyieithog.<br>Yn achos tudalennau sy'n rhoi manylion penodol am brosiectau ymchwil neu grwpiau ymchwil wedi eu hanelu at gydweithrediadau posibl, nid oes angen eu darparu yn ddwyieithog oni bai bod y corff cyllido yn gwneud cais am hynny. | Oes, ond nid oes angen cyfieithu cynnwys ynglŷn â phrosiectau neu grwpiau ymchwil unigol. |
| Gwybodaeth i Fyfyrwyr Cyfredol | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth i fyfyrwyr y Brifysgol. Rhaid ei darparu yn ddwyieithog. | Oes |

| Rhan | Manylion | Dwyieithog |
|---|---|---|
| Newyddion a Digwyddiadau | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r adran. Mae hi wedi ei hanelu at amrywiol gynulleidfaoedd a dylid ei darparu'n ddwyieithog. | Oes |
| Proffiliau Staff | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am staff yn yr adran. Mae hi wedi ei hanelu at amrywiol gynulleidfaoedd, gan gynnwys darpar fyfyrwyr, a myfyrwyr sydd yma ar hyn o bryd. Rhaid darparu'r rhestrau enwau a swyddogaethau, yn ogystal â gwybodaeth sylfaenol, yn ddwyieithog. | Rhestr Staff: Oes<br>Gwybodaeth sylfaenol: Oes |
| Cysylltu â ni | Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chysylltu â'r adran. Mae hi wedi ei hanelu at amrywiol gynulleidfaoedd, gan gynnwys myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr, a dylid ei darparu'n ddwyieithog. | Oes |

## Enghraifft 2: Gwasanaethau Proffesiynol

Rhaid i wefannau sy'n rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr gael eu darparu yn ddwyieithog. Er enghraifft:

- Y Gofrestrfa Academaidd
- Ystadau, Adnoddau a Llety
- Cyllid
- Ysgol y Graddedigion
- Gwasanaethau Croeso
- Gwasanaethau Gwybodaeth
- Y Ganolfan Chwaraeon
- Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd

Rhaid i wefannau'r unedau Gwasanaethau Proffesiynol sy'n rhoi gwybodaeth i staff gael eu darparu'n ddwyieithog hefyd. Er enghraifft:

- Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg
- Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Ystadau
- Adnoddau
- Yr Adran Gyllid
- Marchnata a Denu Myfyrwyr
- Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
- Adnoddau Dynol
- Gwybodaeth Gydymffurfio
- Cynllunio

## Enghraifft 3: Gwybodaeth Gorfforaethol

Rhaid i we-ddalennau sy'n rhoi gwybodaeth am y Brifysgol, yn ogystal ag adroddiadau, strategaethau a pholisïau cyhoeddus, gael eu darparu'n ddwyieithog. Er enghraifft:

- Am y Brifysgol
- Cynadleddau a Digwyddiadau
- Gwybodaeth Gorfforaethol
- Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Cyfadrannau
- Cynllun Strategol
- Swyddfa'r Is-Ganghellor

## A oes eithriadau o gwbl?

Nid oes yn rhaid i rannau ein gwefan a anelir yn benodol at fyfyrwyr rhyngwladol fod yn gwbl ddwyieithog. Serch hynny, rhaid i ni roi peth gwybodaeth allweddol yn ddwyieithog, e.e. gwybodaeth ynglŷn â gwneud cais a gwybodaeth am fisa.

Mae rhannau'r wefan nad oes angen iddynt fod yn gwbl ddwyieithog yn cynnwys:

- Aberystwyth Rhyngwladol / International Aberystwyth Rhyngwladol
- Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol